OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 873

## Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006

## RHAN 2

Darpariaethau sy'n ymwneud ag ysgolion cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir, ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion meithrin a gynhelir

**Staff prydau ysgol**

**18.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) i (4), mae'r awdurdod yn gyfrifol am benodi, disgyblu, atal a diswyddo staff prydau ysgol sy'n gweithio neu sydd i weithio mewn ysgol a chyn arfer unrhyw swyddogaeth o'r fath mae'n rhaid i'r awdurdod ymgynghori â chorff llywodraethu'r ysgol i unrhyw raddau a wêl yr awdurdod yn dda.

(2) Os oes gorchymyn mewn grym o dan adran 512A(1) o Ddeddf Addysg 1996(**1**) sy'n gosod dyletswydd ar gorff llywodraethu ysgol i ddarparu cinio ysgol sy'n cyfateb i ddyletswydd yr awdurdod sydd wedi'i chrybwyll yn adran 512(3) a (4) o'r Ddeddf honno(**2**) neu adran 512ZB(1) o'r Ddeddf honno, mae paragraff (3) neu (4) yn gymwys fel y bo'n briodol.

(3) Os yw'r corff llywodraethu wedi gwneud cytundeb gyda'r awdurdod y dylai'r awdurdod ddarparu cinio yn yr ysgol a bod y corff llywodraethu'n penderfynu y dylai unrhyw aelod o staff prydau'r ysgol beidio â gweithio yn yr ysgol mae'n rhaid iddo hysbysu'r awdurdod yn ysgrifenedig am ei benderfyniad a'r rheswm drosto, ac mae'n rhaid wedyn i'r awdurdod ei gwneud yn ofynnol i'r person beidio â gweithio yn yr ysgol.

(4) Os nad oes cytundeb o'r fath wedi'i wneud, mae rheoliadau 7 a 15 i 17 yn gymwys i aelodau staff o'r fath.

(**1**) 1996 p.56; cafodd adran 512A ei mewnosod gan adran 116 o Ddeddf 1998.

(**2**) Cafodd adran 512, ynghyd ag adrannau 512ZA a 512ZB, ei rhoi yn lle adran 512 fel y'i deddfwyd yn wreiddiol, gan adran 201(1) o Ddeddf 2002.